ATODLEN 11

Darpariaethau Diogelu

# RHAN 2

## Diogelu Network Rail Infrastructure Limited

**25.**—(1) Rhaid i'r ymgymerwr dalu pob cost, tâl, iawndal a thraul resymol i Network Rail na ddarperir ar ei gyfer neu ar ei chyfer yn y Rhan hon y gellir ei (h)achosi i Network Rail neu y gall Network Rail yn rhesymol fynd iddo neu iddi—

(a) oherwydd adeiladu neu gynnal a chadw gwaith penodedig neu fethiant gwaith penodedig; neu

(b) oherwydd unrhyw weithred neu anwaith gan yr ymgymerwr neu gan unrhyw berson a gyflogir ganddo neu gan ei gontractwr neu eraill tra byddant wedi eu penodi i ymgymryd â gwaith penodedig; a rhaid i'r ymgymerwr indemnio Network Rail a pharhau i indemnio Network Rail rhag ac yn erbyn pob hawliad ac archeb am dâl sy'n codi o ganlyniad i waith penodedig neu mewn cysylltiad â gwaith penodedig neu unrhyw gyfryw fethiant, weithred neu anwaith; ac nid yw'r ffaith y gall unrhyw weithred fod wedi ei chyflawni gan Network Rail ar ran yr ymgymerwr neu yn unol â phlaniau a gymeradwywyd gan y peiriannydd neu yn unol ag unrhyw ofyniad gan y peiriannydd neu o dan oruchwyliaeth y peiriannydd (os y'i cyflawnwyd heb esgeuluster ar ran Network Rail neu unrhyw berson a gyflogir ganddo neu gan ei gontractwyr neu ei asiantau) yn esgusodi'r ymgymerwr rhag unrhyw atebolrwydd o dan y Rhan hon.

(2) Rhaid i Network Rail roi rhybudd rhesymol i'r ymgymerwr am unrhyw gyfryw hawliad neu archeb am dâl, ac ni chaniateir setlo'r cyfryw hawliad neu archeb am dâl na chyfaddawdu yn ei gylch neu yn ei chylch heb gydsyniad yr ymgymerwr ymlaen llaw.

(3) Rhaid i'r symiau sy'n daladwy gan yr ymgymerwr o dan is-baragraff (1) gynnwys swm sy'n hafal i'r costau perthnasol.

(4) Yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gytundeb rhwng Network Rail a gweithredwr trenau o ran amseriad neu ddull talu'r costau perthnasol mewn cysylltiad â'r gweithredwr trenau hwnnw, rhaid i Network Rail dalu'n brydlon swm unrhyw symiau y mae Network Rail yn eu derbyn o dan is-baragraff (1) sy'n ymwneud â chostau perthnasol y gweithredwr trenau hwnnw i bob gweithredwr trenau.

(5) Mae'r rhwymedigaeth o dan is-baragraff (3) i dalu'r costau perthnasol i Network Rail, os bydd diffyg, yn uniongyrchol orfodadwy gan unrhyw weithredwr trenau dan sylw i'r graddau y byddai'r cyfryw symiau yn daladwy i'r gweithredwr hwnnw yn unol ag is-baragraff (4).

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr "costau perthnasol" yw'r costau, y colledion uniongyrchol a'r treuliau (gan gynnwys colli refeniw) y mae pob gweithredwr trenau yn mynd iddynt o ganlyniad i unrhyw gyfyngiad ar y defnydd o rwydwaith rheilffyrdd Network Rail o ganlyniad i adeiladu, cynnal a chadw neu fethiant gwaith penodedig, neu unrhyw gyfryw weithred neu anwaith ag a grybwyllir yn is-baragraff (1);

ystyr "gweithredwr trenau" yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i weithredu fel gweithredwr trên drwy drwydded o dan adran 8 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993.